


## PERROT (teulu) Haroldston, Sir Benfro



### Syr JOHN PERROT (1528 - 1592), gwleidydd

Ganwyd John Perrot ym mis Tachwedd 1528 yn Haroldston, mae'n debyg, ac yn ôl yr hyn a ddywedai ef ei hun cafodd ei addysg yn ysgol y gadeirlan Tyddewi. Pan oedd yn ddeunaw oed aeth i wasanaethu yr Arglwydd Drysorydd, William Paulet, Ardalydd Winchester. Yn groes i'r stori gyffredin ynghylch genedigaeth a thadolaeth Perrot, nid oedd yn fab anghyfreithlon i Harri VIII. Ni wasanaethodd mam Perrot, Mary Berkeley, fel boneddiges yn llys y brenin, ac nid urddwyd ei dad, Thomas, yn farchog.

Roedd John Perrot yn fawr o gorffolaeth ac yn nodedig o gryf, ond roedd iddo dymher ormesol a natur gwerylgar. Roedd y Tuduriaid yn hoff iawn ohono; credir i Harri VIII gynnig dyrchafiad iddo eithr bu farw cyn gallu ei roi. Cyfrifai Edward VI ef yn gyfailli a gwnaeth ef yn Farchog Gwry yn 1549. Pan fu Richard Devereux farw, er nad oedd Perrot eto'n ugain oed cymerodd ei le fel Aelod Seneddol dros Sir Gaerfyrddin yn Senedd gyntaf Edward VI yn 1547. Gyda chefnogaeth ei lys-dad, y gŵr llys Syr Thomas Jones, a'r Arglwydd Drysorydd Paulet, ffynnodd gyrfa Perrot yn y Llys yn ystod teyrnasiad y plentyn o frenin. Yn haf 1551 aeth gydag Ardalydd Northampton i Ffrainc i negodi priodas y brenin â'r Dywysoges Elisabeth. Dywedir i Perrot achub bywyd Henri II ar helpa trwy ei arbed rhag baedd clwyfedig. Cynigiodd y brenin diolchgar le yn y Llys Ffrengig gyda 'pensiwn da i wasanaethu'. Gwrthododd Perrot a dychwelodd i Loegr, lle bu'n rhaid iddo forgeisio rhai o'i diroedd teuluol yn sgil ei afradlonedd. Yn ôl ei fab a'i fywgraffydd, Syr James, yng ngwanwyn 1553 cwrddodd Perrot ag Edward VI a gydymdeimlodd â'i argyfwng a pherswadio'r Cyngor i ddyfarnu £100 iddo. Mae'n glir bod Perrot yn rhannu ei amser rhwng y Llys a'r wlad pan ddeiswyd ef ym Medi 1551 yn siryf dros Sir Benfro. Yn 1553 fe'i penodwyd yn un o'r comisiynwyr brenhinol a oedd yn gyfrifol am arolygu a rhestru eiddo eglwysi a brawdoliaethau yn Sir Benfro.

Gan iddo gofleidio'r ffydd Brotestannaidd yn frwd, go brin fod Perrot wedi croesawu dyfodiad y Gatholiges selog Mari yn 1553. Parhaodd ei brentisiaeth wleidyddol pan etholwyd ef yn aelod dros Sandwich yng Nghaint mewn dwy o seneddau Mari yn 1553 a 1555. Yn 1555, penodwyd ef i gomisiwn yr heddwch yn Sir Benfro gan wasanaethu fel ynad heddwch cyn derbyn rheolaeth dros gyflawnder yn y sir pan ddyrchafwyd ef yn custos rotulorum neu brif ynad. Nid oedd gan Mari, ar y cyntaf, unrhyw wrthwynebiad i Brotestaniaeth gref Perrot, gan roi iddo les ar Gastell Caerw hyd yn oed, ond trodd y llywodraeth yn ei erbyn pan ymuniaethodd â'r wrthblaid Brotestannaidd yn y senedd. Cyhuddwyd Perrot wedyn gan ei gymydog a'i elyn marwol, y Catholigwr Thomas Catherine (bu farw 1568) o Prendergast ger Hwlffordd, o lochesu hereticaid yn ei gartref yn Haroldston, a charcharwyd ef am gyfnod byr yn y Fleet, a phenderfynodd mai doethach fydd treulio gweddill teyrnasiad Mari dramor, gan wasanaethu yn Ffrainc dan ei gyfailli, **William Herbert** (bu farw 1570), iarll Penfro. Yn Ffrainc ymroddodd Perrot i'r bywyd milwrol ac amlygodd ei hun yn y gwarchae ar St. Quentin. Dychwelodd i Brydain ychydig fisoedd cyn marwolaeth Mari, ond ni fu byth yn bell o helyntion dadleuol. Yn Chwefror 1558, ailgydiodd yn ei gynnen â Catherine, gan achwyn amdano i Gyngor y Frenhines yn ei gyhuddo o lygredd. Rhyw fis wedyn torrodd Perrot i mewn i dŷ Catherine gyda chriw o weision arfog a mynd ag ef i'r ddalfa yng Nghastell Caerw. Ymddangosodd y ddau gerbron y Cyngor ym Mehefin lle cafwyd bod Perrot wedi camymddwyn ac fe'i carcharwyd eto yn y Fleet. Pan gafodd ei ryddhau rhwymwyd ef i gadw'r heddwch dan amod £200.

O dan Elisabeth roedd Perrot yn ffefryn mawr, ac roedd yn un o bedwar a benodwyd i gludo'r canopi brenhinol yn ei choroniad yn Ionawr 1559. Ym mlynnyddoedd cyntaf teyrnasiad Elisabeth cadarnhaodd Perrot ei rym yn ne-orllewin Cymru trwy grynhoi nifer o swyddi pwysig: yn 1559, fe'i penodwyd yn stiward maenorau Caerw, Coedraeth, Narberth a Sain Clêr, yn gwnstabl cestyll Narberth a Dinbych-y-pysgod ac yn geidwad carchar Hwlffordd. Yn 1560-1 gwasanaethodd fel maer Hwlffordd, ac fel comisiynydd dros diroedd cuddiedig, ac yn 1562 fe'i gwnaed yn ddirprwy-lyngesydd arfordir De Cymru. Y flwyddyn ganlynol etholwyd ef i'r Senedd yn aelod dros Sir Benfro. Yn fuan iawn ef oedd dyn mwyaf pŵerus y sir, ond daeth yn amhoblogaidd iawn yng ngolwg ei gymdogion mwyaf eu dylanwad oherwydd ei ymgyfreithio mlynch gyda'r bwriad o beri blinder i'w elynion. Yn 1570 fe'i gwnaed yn gomisiynydd dros fwstro, yn stiward arglwyddiaeth Cilgerran, a gwasanaethodd am ail dymor fel maer Hwlffordd, ar ôl cyfnod pryd y buasai maer a chorfforaeth y dref honno yn elyniaethus iawn tuag ato.

Yn 1570 penodwyd Perrot yn llywydd cyntaf Munster a gwasanaethodd yno o 1571 hyd 1573, yn sgil awydd Elisabeth i sefydlu yn y sir honno lywyddiaeth gyffelyb i'r un a fodolai eisoes yn Connacht. Ar ei ysgwyddau ef y disgynnodd y gorchwyl o ddfodi gwrthryfel James Fitzmaurice, nai iarll Desmond, a llwyddodd i wneud hynny ar ôl cyrch a nodwedddwyd gan beth creulondeb. Yn 1573, fodd bynnag, dychwelodd i Gymru yn wael ei iechyd, a phenderfynu, fel y dywedodd wrth **Burghley**, fyw bywyd gwladwr a chadw rhag mynd i ddyled. Yn ystod y deng mlynedd nesaf bu ei 'fywyd gwladwr' yn gyfystyr â chyfnod o ymgyfreithio ar raddfa eang ac ymdrechion i ychwanegu at ei diroedd. Ymddiddorodd unwaith yn rhagor ym mywyd cyhoeddus Hwlffordd; erbyn hyn ymddengys fod ei gysylltiadau â'r maer a'r gorfforaeth yn llawer mwy cyfeillgar, a daeth ef ei hun yn faer am y trydydd tro yn 1575. Y flwyddyn cynt, gwnaethid ef yn aelod o Lys Goror Cymru, a chymerodd ran weithredol yn y gwaith o ddfodi môr-herwriaeth ar lannau De Cymru. Pan sefydlodd y Cyfrin Gyngor gomisiwn, yn 1575, i ddfodi môr-herwriaeth yn Sir Benfro, gwnaethpwyd Perrot yn brif gomisiynwr, ond pan sefydlwyd comisiwn cyffelyb y flwyddyn ganlynol i weithredu yn Sir Forgannwg a Sir Fynwy, gwrthododd gymryd gofal ohono, oherwydd gwaieidd ei iechyd, meddai ef. Mae ei lafur ynglŷn â ddfodi môr-herwriaeth o ddiddordeb yn bennaf oherwyd y cweryl cas a grewyd gan y gwaith hwn rhyngddo ef a Richard Vaughan, dirprwy brif-lyngesydd yng Nghymru a phrif gomisiynwr dros fôr-herwriaeth yn Sir Gaerfyrddin, a wrthwynebai'n gryf ymyraeth Perrot yn yr hyn a oedd, yn ei farn ef, yn faes arbennig iddo ef.

Ym Medi 1579 rhoddwyd i Perrot ofal ysgadran o bum llong a gorchymyn i hwylio oddi ar arfordir gorllewin Iwerddon i gliro'r moroedd o fôr-herwyr ac atal unrhyw longau yn perthyn i Sbaen a geisiai lanio yno. Heblaw canfod un llong môr-herwyr, y '*Derifold*,' a'i dal, ni ddigwyddodd dim o bwys, ond ar ei ffordd yn ôl aeth llong Perrot ei hun i helynt yn y Downs y tu allan i arfordir Caint. Pan gyrhaeddodd yr ysgadran i afon Tafwys yn ddiogel, cafodd Perrot fod ei elynion wedi manteisio ar yr anap hwnnw, a'r ffaith nad oedd wedi cyflawni fawr ddim yn ystod y cyrch, i'w ddfrio yn y llys brenhinol. Llwyddodd, fodd bynnag, i adennill ei enw da. Ychydig yn ddiweddarach, yn 1580, daeth Thomas Wyrriott, a arferai fod yn un o'r 'Yeoman of the Guard', a brawd iau'r ustud heddwch George Wyrriott, ag achwyniadau yn erbyn Perrot a'u dwyn gerbron y Cyfrin Gyngor. Eithr barnodd y Cyngor eu bod yn ensyniadau enllibus a thafwyd Wyrriott ei hun i garchar y Marshalsea. Gwnaeth Wyrriott yr un achwyniadau eto ar ôl hynny, a rhwng y cwbl costiodd ei gweryl â Perrot iddo o leiaf ddeng mlynedd o garchar a dirwy o 1,000 o farciau. Yn sgil cynnen ag uchelwyr eraill o Sir Benfro bu Perrot â rhan mewn nifer o achosion yn y Star Chamber, ond y cweryl chwerwaf oedd yr un yn 1581 â **Gruffudd Rice** o Newton, Sir Gaerfyrddin, y bu'n rhaid i'r Cyfrin Gyngor ei hun ymyrryd ynddo.



Archifau Cenedlaethol, Wards, 9/129, f.164

*Calendar of State Papers, Domestic series, of the reigns of Edward VI., Mary, Elizabeth, (James I) 1547-1580 (1581-1625), preserved in the State Paper Department of Her Majesty's Public Record Office. (1547-1590)* (London 1856-72), *Calendar of State Papers, Domestic Series, Record Publication and Calendar of State Papers relating to Ireland.* Record Publication

John Gough Nichols (ed.), *Literary remains of King Edward the Sixth* (London 1857), lxi, cccvii, 256n., 317n., 384, 389

Richard Rawlinson (ed.), *The history of the most eminent statesmen, Sir John Perrott, Knight of the Bath and Lord Lieutenant of Ireland* (London 1728)

James Caulfield (ed.), Sir Robert Naunton, *Fragmenta Regalia memoirs of Elizabeth, her court and favourites* (London 1814), 87-9

E. L. Barnwell, *Perrot notes: or some account of the various branches of the Perrot family* (London 1867)

Sir Edward Cecil, *The Government of Ireland under Sir John Perrot, Knight, beginning 1584 & ending 1588. Being the first booke of the continuation of the Historie of that Kingdome, etc* (London 1626)

S. R. Meyrick (ed.), *Heraldic Visitations of Wales and Part of the Marches between the years 1586 and 1613, under the authority of Clarendieux and Norroy, two kings at arms* (Llandovery 1846), i, 89, 133

Richard Fenton, *A Historical Tour through Pembrokeshire* (London 1811)

David Lloyd, *State Worthies, during the reigns of Henry VIII., Edward VI., Mary, Elizabeth, James, Charles I. The second edition, with additions* (London 1670)

R. Bagwell, *Ireland under the Tudors, with a succinct account of the earlier history* (London 1885-90), 3 volumes

*Annals of the Four Masters Annals of the Kingdom of Ireland. From the earliest times to the year 1616* (Dublin 1856), 7 volumes; reprinted Dublin, 1990

British Library MSS.: Sloane Manuscript, 3200; Stowe Manuscript, 150; Lansdowne Manuscripts, 39, 53, 72, 75, 76; Harley Manuscripts, 39, 154, 3292, 5992; Additional Manuscripts, 4819, 15664, 22720, 32091, 34079

Foster, *Alumni Oxonienses: the members of the University of Oxford*

R. Turvey, 'The Perrot Family and their circle in south-west Wales during the later Middle Ages' (traethawd Ph.D. Prifysgol Cymru [Abertawe], 1988)

R. Turvey, *A critical edition of Sir James Perrot's The life, deedes and death of Sir John Perrott, knight / Sir James Perrot* (Lampeter 2002)

R. Turvey, *The treason and trial of Sir John Perrot* (Cardiff 2005)

## Syr Thomas Perrot

E. L. Barnwell, *Perrot notes: or some account of the various branches of the Perrot family* (London 1867)

R. Turvey, 'The Perrot Family and their circle in south-west Wales during the later Middle Ages' (traethawd Ph.D. Prifysgol Cymru [Abertawe], 1988)

R. Turvey, *A critical edition of Sir James Perrot's The life, deedes and death of Sir John Perrott, knight / Sir James Perrot* (Lampeter 2002)

Richard Rawlinson (ed.), *The history of the most eminent statesmen, Sir John Perrott, Knight of the Bath and Lord Lieutenant of Ireland* (London 1728)

S. R. Meyrick (ed.), *Heraldic Visitations of Wales and Part of the Marches between the years 1586 and 1613, under the authority of Clarendieux and Norroy, two kings at arms* (Llandovery 1846), i, 89

R. Flenley, *A calendar of the register of the Queen's Majesty's Council in the dominion and principality of Wales and the marches of the same (1535) 1569-1591* (London 1916)

*Calendar of State Papers, Domestic series, of the reigns of Edward VI., Mary, Elizabeth, (James I) 1547-1580 (1581-1625), preserved in the State Paper Department of Her Majesty's Public Record Office. (1547-1590)* (London 1856-72), *Calendar of State Papers, Domestic Series, Record Publication, 114, 251, 554-5, 558, 648*

*British Library, Lansdowne MS. 55, f.31; 62, f.5; 72, ff. 4, 6, 15; 73, f.21*

J. Strype, *Historical collections of the life and acts of the Right Reverend Father in God, John Aylmer, Lord Bp. of London in the reign of Queen Elizabeth* (London 1821), 130, 217-19

## Syr James Perrot

E. L. Barnwell, *Perrot notes: or some account of the various branches of the Perrot family* (London 1867), 59

Anthony Wood, *Athenae Oxonienses* (1813-20). Dyfynnir weithiau yn yr arg. cyntaf (1691-2, ed. Bliss), ii, 605-6

William Cobbett, *Parliamentary History of England from the Norman Conquest in 1066 to 1803* (London 1803-1820), i, 1306-13

S.R. Gardiner, *History of England, 1603-1642* (1883-4), 10 volumes, iv, 28, 67, 128, 235, 255

Robert Williams, *Enwogion Cymru. A Biographical Dictionary of Eminent Welshmen* (1852)

W. R. Williams, *The parliamentary history of the principality of Wales, from the earliest times to the present day, 1541-1895* (Brecknock 1895)

*Reports of the Historical Manuscripts Commission, Salisbury*, vii, 223

*Calendar of State Papers, Domestic series, of the reigns of Edward VI., Mary, Elizabeth, (James I) 1547-1580 (1581-1625), preserved in the State Paper Department of Her Majesty's Public Record Office. (1547-1590)* (London 1856-72), *Calendar of State Papers, Domestic Series*

*Reports of the Historical Manuscripts Commission, Cecil*, iv, 213, 261

S. R. Meyrick (ed.), *Heraldic Visitations of Wales and Part of the Marches between the years 1586 and 1613, under the authority of Clarendieux and Norroy, two kings at arms* (Llandovery 1846), i, 89

Le Neve, *Le Neve's Pedigrees of the Knights made by King Charles II., King James II., King William III. and Queen Mary, King William alone, and Queen Anne* (Llundain 1873), 165

Foster, *Alumni Oxonienses: the members of the University of Oxford*

R. Turvey, 'Admiration or Revulsion: Interpreting the Life, Career and Character of Sir James Perrot (1571-1637)', *Journal of the Pembrokeshire Historical Society*, No. 11

(2002), 5-31; No. 12 (2003), 44-58

Andrew Thrush a John P. Ferris, *PERROT, Sir James (c.1572-1637), of Haroldston, Pemb., The history of Parliament. The House of Commons, 1604-1629* (Wivenhoe 2011)

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [John Perrot](#)

## Delweddau

William Tringham, Sr. John Perrot

LIGC: Sir John Perrott

LIGC: Sir John Perrott Knight of the Bath. Lord Lieutt. of Ireland. 1583

LIGC: Sir John Perrott Deputy of Ireland 1584

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 20627791

VIAF: 57559802

Wikidata: Q2058500

Wikidata: Q16863483

Wikidata: Q6141170

Dyddiad cyhoeddi: 2020-11-26

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Erthygl a archifwyd

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Evans, P. C. C., & Turvey, R., (2020). PERROT (teulu) Haroldston, Sir Benfro. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 16 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c12-PERR-HAR-1530>

CC BY-NC-ND

Preifatrwydd a Chwcis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LIGC  
NLW

LLYFRGELL  
THE NATION



Mudiad gan  
Llywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government